



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

2001 Rhif 2290 (Cy. 178)

2001 No. 2290 (W. 178)

**LLYWODRAETH LEOL,
CYMRU**

**LOCAL GOVERNMENT,
WALES**

Rheoliadau Awdurdodau Lleol
(Trefniadau Gweithrediaeth)
(Penderfyniadau, Dogfennau a
Chyfarfodydd) (Cymru) 2001

Local Authorities (Executive
Arrangements) (Decisions,
Documents and Meetings) (Wales)
Regulations 2001

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note does not form part of the Regulations)

Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru sy'n gweithredu trefniadau gweithrediaeth o dan Ran II o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000. Maent yn gwneud darpariaeth ynghylch rhoi cyfle i'r cyhoedd fynd i gyfarfodydd gweithrediaethau awdurdodau lleol a'u pwyllgorau a chyfle iddynt weld eu penderfyniadau a'u dogfennau. Yn ychwanegol, maent yn ymdrin hefyd â'r cyfle i weld gwybodaeth ynghylch penderfyniadau sy'n cael eu gwneud gan gyd-pwyllgorau awdurdodau lleol pan yw'r rhain yn cynnwys aelodau gweithrediaethau yn unig ac yn cyflawni swyddogaeth gweithrediaeth.

O dan drefniadau gweithrediaeth bydd aelodau unigol yn gallu gwneud penderfyniadau gweithrediaeth ac felly mae'r Rheoliadau yn gwneud darpariaeth hefyd ynghylch y cyfle i weld dogfennau pan fydd penderfyniadau gweithrediaeth yn cael eu gwneud gan aelodau unigol.

Egwyddor gyffredinol y Rheoliadau yw bod y cyhoedd yn cael y cyfle i fynd i gyfarfodydd, ac i weld dogfennau a phenderfyniadau pan fydd gweithrediaeth neu bwyllgor awdurdod lleol neu unigolyn am wneud "penderfyniad gweithrediaeth". Diffinnir y term "penderfyniad gweithrediaeth" yn rheoliad 2.

These Regulations apply to county councils and county borough councils in Wales which are operating executive arrangements under Part II of the Local Government Act 2000. They make provision relating to public access to meetings, decisions and documents of local authority executives and their committees. In addition, they also deal with access to information relating to decisions made by joint committees of local authorities where these are solely comprised of executive members and are discharging an executive function.

Under executive arrangements individual members will be able to make executive decisions and so the Regulations also make provision in respect of access to documents where executive decisions are made by individual members.

The general principle of the Regulations is for the public to have access to meetings, documents and decisions where a local authority executive, a committee or an individual is to take an "executive decision". The term "executive decision" is defined in regulation 2.

Mae Rhan I o'r Rheoliadau yn cynnwys deunydd rhagarweiniol a diffiniadau o'r termau a ddefnyddir yn y Rheoliadau.

Mae Rhan II yn cynnwys materion cyffredinol sy'n ymwneud â phob penderfyniad gweithrediaeth. Yn benodol mae rheoliadau 3 a 4 yn darparu (yn ddarostyngedig i eithriadau penodedig) fod rhaid i gyfarfodydd gweithrediaethau awdurdodau lleol gael eu cynnal yn gyhoeddus. Mae'r rheolau ynghylch y cyfle i weld agenda ac adroddiadau ar gyfer cyfarfodydd gweithrediaethau wedi'u nodi yn rheoliad 5.

Mae rheoliadau 6 a 7 yn pennu, pan fydd penderfyniad gweithrediaeth yn cael ei gofnodi, fod rhaid nodi'r rhesymau dros y penderfyniad, pa bryd y gwnaed y penderfyniad, manylion unrhyw wrthdrawiad buddiannau neu unrhyw ymgyngoriad a gynhaliwyd. Mae'r darpariaethau ynghylch cofnodi yn gymwys i benderfyniadau gweithrediaeth sy'n cael eu gwneud ar y cyd, neu gan aelodau unigol.

Yn rheoliad 8 ceir darpariaethau sy'n ymwneud ag archwilio dogfennau yn dilyn penderfyniadau gweithrediaeth. Mae gofynion ynghylch archwilio papurau cefndir yn rheoliad 9.

Yn Rhan III rhoddir hawliau ychwanegol i aelodau awdurdodau lleol a phwyllgorau trosolygu a chraffu mewn perthynas â chael cyfle i weld gwybodaeth. Mae hawliau ychwanegol i aelodau yn gyffredinol wedi'u cynnwys yn rheoliad 10. Mae safbwynt y gyfraith gyffredin ynghylch "yr angen i gael gwybod" yn cael ei diogelu. Mae rheoliad 11 yn nodi hawliau ychwanegol i aelodau pwyllgorau trosolygu a chraffu mewn perthynas â'r penderfyniadau y maent yn craffu arnynt. O dan amgylchiadau penodol gall yr aelodau hyn gael cyfle i weld gwybodaeth esempt neu gyfrinachol berthnasol. Nid oes dim yn y rheoliadau hyn yn caniatáu datgelu gwybodaeth o'r fath gan aelodau pwyllgorau trosolygu a chraffu.

Mae Rhan IV yn cynnwys darpariaethau cyffredinol pellach ynghylch gwybodaeth. Mae rheoliad 12 yn pennu gwybodaeth ychwanegol benodol am ei drefniadau gweithrediaeth y mae'n rhaid i awdurdod lleol drefnu iddi fod ar gael. Yn rheoliad 13 ceir darpariaethau sy'n nodi sut y bydd awdurdod lleol yn rhoi cyfle i'r cyhoedd archwilio dogfennau. Mae rheoliad 14 yn creu tramgwyddau.

Part I of the Regulations contains introductory material and definitions of terms used in the Regulations.

Part II contains general matters which relate to all executive decisions. In particular regulations 3 and 4 provide (subject to certain specified exemptions) that meetings of local authority executives must be held in public. The rules regarding access to agenda and reports for meetings of executives are set out in regulation 5.

Regulations 6 and 7 specify that, where an executive decision is recorded, a note must be made of the reasons for the decision, when the decision was made, details of any conflict of interest and any consultation undertaken. The provisions concerning recording apply to executive decisions made collectively, or by individual members.

In regulation 8 there are provisions related to inspection of documentation following executive decisions. There are requirements with regard to inspection of background papers at regulation 9.

In Part III members of local authorities and of overview and scrutiny committees are given additional rights in relation to access to information. Additional rights for members in general are contained in regulation 10. The common law position of "the need to know" is preserved. Regulation 11 sets out additional rights for members of overview and scrutiny committees in relation to decisions that they are scrutinising. In certain circumstances these members can have access to relevant exempt or confidential information. Nothing in these regulations permits the disclosure of such information by members of overview and scrutiny committees.

Part IV contains further general provisions relating to information. Regulation 12 stipulates certain additional information which a local authority must make available concerning its executive arrangements. In regulation 13 there are provisions which specify to how inspection of documentation is to be afforded to the public by a local authority. Regulation 14 creates offences

2001 Rhif 2290 (Cy. 178)

2001 No. 2290 (W. 178)

**LLYWODRAETH LEOL,
CYMRU**

**LOCAL GOVERNMENT,
WALES**

Rheoliadau Awdurdodau Lleol
(Trefniadau Gweithrediaeth)
(Penderfyniadau, Dogfennau a
Chyfarfodydd) (Cymru) 2001

Local Authorities (Executive
Arrangements) (Decisions,
Documents and Meetings) (Wales)
Regulations 2001

Wedi'u gwneud 21 Mehefin 2001

Made 21st June 2001

Yn dod i rym 28 Gorffennaf 2001

Coming into force 28th July 2001

TREFN Y RHEOLIADAU

ARRANGEMENT OF REGULATIONS

RHAN I

PART 1

CYFFREDINOL

GENERAL

1. Enwi, cychwyn a chymhwyso
2. Dehongli

1. Name, commencement and application
2. Interpretation

RHAN II

PART II

**CANIATÂD I FYND I GYFARFODYDD
GWEITHREDIAETHAU AWDURDODAU
LLEOL A'U PWYLLGORAU A
DARPARIAETHAU MEWN CYSYLLTIAD Â
PHENDERFYNIADAU GWEITHREDIAETH**

**ADMISSION TO MEETINGS OF LOCAL
AUTHORITY EXECUTIVES AND THEIR
COMMITTEES AND PROVISIONS IN
CONNECTION WITH EXECUTIVE
DECISIONS**

3. Cyfarfodydd gweithrediaethau awdurdodau lleol a'u pwyllgorau i'w cynnal yn gyhoeddus
4. Caniatâd i'r cyhoedd fynd i gyfarfodydd gweithrediaethau awdurdodau lleol a'u pwyllgorau
5. Y cyfle i weld agendâu ac adroddiadau cysylltiedig ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus
6. Cofnodi penderfyniadau sy'n cael eu gwneud mewn cyfarfodydd gweithrediaethau awdurdodau lleol a'u pwyllgorau
7. Cofnodi penderfyniadau gweithrediaeth sy'n cael eu gwneud gan unigolion
8. Archwilio dogfennau yn dilyn penderfyniadau gweithrediaeth
9. Archwilio papurau cefndir

3. Meetings of local authority executives and their committees to be held in public
4. Admission of the public to meetings of local authority executives and their committees
5. Access to agenda and connected reports for public meetings
6. Recording of decisions taken at meetings of local authority executives and their committees
7. Recording of executive decisions made by individuals
8. Inspection of documents following executive decisions
9. Inspection of background papers

RHAN III

HAWLIAU YCHWANEGOL I AELODAU'R AWDURDOD LLEOL AC AELODAU PWYLLGORAU TROSOLYGU A CHRAFFU

10. Hawliau ychwanegol i aelodau awdurdodau lleol gael cyfle i weld dogfennau.
11. Hawliau ychwanegol i aelodau pwyllgorau trosolygu a chraffu gael cyfle i weld dogfennau

RHAN IV

DARPARIAETHAU PELLACH

12. Yr awdurdodau lleol i gyhoeddi gwybodaeth ychwanegol
13. Darpariaeth atodol
14. Tramgwyddau Rhan II

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol trwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 22(6), (7), (8), (9), (10), (11), a (12), 105 a 106 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000(a):

RHAN I

CYFFREDINOL

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Penderfyniadau, Dogfennau a Chyfarfodydd) (Cymru) 2001 a deuant i rym ar 28 Gorffennaf 2001.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn -

nid yw "adroddiad" ("*report*") mewn perthynas â phenderfyniad gweithrediaeth yn cynnwys adroddiad ar ffurf

"awdurdod lleol" ("*local authority*") yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol sy'n gweithredu trefniadau gweithrediaeth yn unol â Deddf 2000;

ystyr "awdurdod lleol perthnasol" ("*relevant local authority*") yw'r awdurdod lleol y mae ei weithrediaeth yn gyfrifol am gyflawni'r swyddogaeth y mae'r penderfyniad gweithrediaeth yn ymwneud â hi;

mae "copi" ("*copy*") mewn perthynas ag unrhyw ddogfen, yn cynnwys copi sy'n cael ei wneud o gopi;

(a) 2000 p.22.

PART III

ADDITIONAL RIGHTS FOR MEMBERS OF THE LOCAL AUTHORITY AND FOR MEMBERS OF OVERVIEW AND SCRUTINY COMMITTEES

10. Additional rights of access to documents for members of local authorities
11. Additional rights of access to documents for members of overview and scrutiny committees

PART IV

FURTHER PROVISIONS

12. Local authorities to publish additional information
13. Supplementary provision
14. Part II Offences

The National Assembly for Wales makes the following Regulations in exercise of the powers conferred upon it by sections 22(6), (7), (8), (9), (10), (11) and (12), 105 and 106 of the Local Government Act 2000(a):

PART I

GENERAL

Name, commencement and application

1.-(1) The name of these Regulations is the Local Authorities (Executive Arrangements) (Decisions, Documents and Meetings) (Wales) Regulations 2001 and they shall come into force on 28th July 2001.

(2) These Regulations apply to Wales only.

Interpretation

2. In these Regulations -

"the 1972 Act" ("*Deddf 1972*") means the Local Government Act 1972(b);

"the 2000 Act" ("*Deddf 2000*") means the Local Government Act 2000;"background papers" ("*papurau cefndir*"), in relation to a report, means those documents, other than published works, that -

- (a) relate to the subject matter of the report; and
- (b) in the opinion of the proper officer -

- (i) disclose any facts or matters on which the report or an important part of the report is based, and

(a) 2000 c.22.

(b) 1972 c.70.

ystyr "corff penderfynu" ("*decision making body*") mewn perthynas â phenderfyniad gweithrediaeth yw -

- (a) gweithrediaeth awdurdod lleol;
- (b) pwyllgor gweithrediaeth awdurdod lleol;
- (c) cyd-bwyllgor, pan fydd holl aelodau'r cyd-bwyllgor yn aelodau o weithrediaeth awdurdod lleol; neu
- (ch) is-bwyllgor i gyd-bwyllgor, pan fydd holl aelodau'r cyd-bwyllgor yn aelodau o weithrediaeth awdurdod lleol, sydd wedi'i hawdurdodi i gyflawni'r swyddogaeth y mae'r penderfyniad gweithrediaeth yn ymwneud â hi yn unol â Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Cyflawni Swyddogaethau) (Cymru) 2001**(b)**;

ystyr "cyd-bwyllgor" ("*joint committee*") yw pwyllgor a benodir o dan adran 102(1) o Ddeddf 1972 (penodi pwyllgorau) yn unol â rheoliadau a wneir o dan adran 120 o Ddeddf 2000**(c)**;

ystyr "cyfarfod" ("*meeting*") yw cyfarfod gweithrediaeth yr awdurdod, neu gyfarfod pwyllgor neu is-bwyllgor o'r weithrediaeth honno, yn unol â'r rheoliadau hyn;

ystyr "cynghorydd neu gynorthwydd gwleidyddol" ("*political adviser or assistant*") yw person a benodir yn unol ag adran 9 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (cynorthwywyr ar gyfer grwpiau gwleidyddol)**(ch)** neu baragraff 6 o Atodlen 1 i Ddeddf 2000 (cynorthwydd maer);

ystyr "Deddf 1972" ("*the 1972 Act*") yw Deddf Llywodraeth Leol 1972**(d)**

"Deddf 2000" ("*the 2000 Act*") yw Deddf Llywodraeth Leol 2000;

ystyr "dogfen" ("*document*") yw unrhyw adroddiad neu bapur cefndir, heblaw un sydd ar ffurf ddrafft yn unig, sy'n cael ei gymryd i ystyriaeth mewn perthynas â phenderfyniad gweithrediaeth;

mae "gwybodaeth" ("*information*") yn cynnwys barn sy'n cael ei lleisio, argymhelliad ac unrhyw benderfyniad sy'n cael ei wneud;

mae i "gwybodaeth esempt" yr ystyr a roddir i "*exempt information*" gan adran 100I o Ddeddf 1972 (gwybodaeth esempt a'r pŵer i amrywio Atodlen 12A)**(dd)**;

ystyr "gwybodaeth gyfrinachol" ("*confidential information*") yw -

(ii) were relied on to a material extent in preparing the report;

"confidential information" ("*gwybodaeth gyfrinachol*") means -

- (a) information furnished to the authority by the National Assembly for Wales or by a Government department upon terms (however expressed) which forbid the disclosure of the information to the public; and
- (b) information the disclosure of which to the public is prohibited by or under any enactment or by the order of a court,

and in either case, a reference to the obligation of confidence is to be construed accordingly;

"copy" ("*copi*"), in relation to any document, includes a copy made from a copy;

"decision-maker" ("*pendrefynwr*") means the decision making body by which, or the individual member by whom, an executive decision is made;

"decision making body" ("*corff penderfynu* ") in relation to an executive decision means -

- (a) the executive of a local authority;
- (b) a committee of a local authority executive;
- (c) a joint committee, where all the members of the joint committee are members of a local authority executive; or
- (d) a sub-committee of a joint committee, where all the members of the joint committee are members of a local authority executive, which is authorised to discharge the function to which the executive decision relates in accordance with the Local Authorities (Executive Arrangements) (Discharge of Functions) (Wales) Regulations 2001**(c)**;

"document" ("*dogfen*") means any report or background paper, other than one which is only in a draft form, taken into consideration in relation to an executive decision;

"executive decision" ("*pendrefyniad gweithrediaeth*") means a decision made or to be made by a decision-maker in connection with the discharge of a function which is the responsibility of the executive of a local authority;

"exempt information" ("*gwybodaeth esempt*") has the meaning given by section 100I of the 1972 Act (exempt information and power to vary Schedule 12A)**(d)**;

(b) O.S. 2001/?.

(c) Gweler rheoliad 11 o Reoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Cyflawni Swyddogaethau) (Cymru) 2001 (O.S. 2001/?).

(ch) 1989 p.42.

(d) 1972 p.70.

(dd) Mewn osodwyd adran 100I gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Y Cyfle i Weld Gwybodaeth) 1985 (p.43).

(c) S.I. 2001/?.

(d) Section 100I was inserted by the Local Government (Access to Information) Act 1985 (c.43).

- (a) gwybodaeth a ddarparwyd i'r awdurdod gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru neu gan adran o'r Llywodraeth ar delerau (pa ffordd bynnag y'u mynegwyd) sy'n gwahardd datgelu'r wybodaeth i'r cyhoedd; a
- (b) gwybodaeth y gwaherddir ei datgelu i'r cyhoedd gan unrhyw ddeddfiad neu odano neu drwy orchymyn llys,

ac yn y naill achos neu'r llall, mae cyfeiriad at rwymedigaeth cyfrinachedd i'w dehongli yn unol â hynny;

ystyr "papurau cefndir" ("*background papers*"), mewn perthynas ag adroddiad, yw'r dogfennau hynny, heblaw gweithiau cyhoeddedig -

- (a) sy'n ymwneud â phwnc yr adroddiad; a
- (b) sydd ym marn y swyddog priodol -
 - (i) yn datgelu unrhyw ffeithiau neu faterion y mae'r adroddiad neu ran bwysig o'r adroddiad wedi'i seilio arnynt, a
 - (ii) yn ddogfennau y dibynnwyd arnynt i raddau perthnasol wrth baratoi'r adroddiad;

mae "papur newydd" ("newspaper") yn cynnwys -

- (a) asiantaeth newyddion sy'n cynnal busnes gwerthu a darparu adroddiadau neu wybodaeth i bapurau newydd yn systemataidd; a
- (b) unrhyw gorff sydd wrthi'n casglu newyddion yn systemataidd -
 - (i) ar gyfer darllediadau sain neu deledu; neu
 - (ii) i'w cynnwys mewn rhaglenni sydd i'w cynnwys mewn unrhyw wasanaeth rhaglenni o fewn ystyr "programme service" yn Neddf Darlledu 1990 heblaw gwasanaeth darlledu sain neu deledu o fewn ystyr "sound or television broadcasting service" yn Rhan III neu Ran I o'r Ddeddf honno yn eu tro(e); neu

(iii) i'w defnyddio'n electronig neu mewn unrhyw fformat arall i ddarparu newyddion i'r cyhoedd drwy gyfrwng y Rhyngwrld.

ystyr "penderfyniad gweithrediaeth" ("*executive decision*") yw penderfyniad sy'n cael ei wneud neu sydd i'w wneud gan benderfynwr mewn cysylltiad â chyflawni swyddogaeth y mae gweithrediaeth awdurdod lleol yn gyfrifol amdani;

ystyr "penderfynwr" ("*decision-maker*") yw'r corff penderfynu, neu'r aelod unigol, y mae penderfyniad gweithrediaeth yn cael ei wneud ganddo;

"information" ("*gwybodaeth*") includes an expression of opinion, recommendation and any decision made;

"joint committee" ("*cyd-bwyllgor*") means a committee appointed under section 102(1) of the 1972 Act (appointment of committees) in accordance with regulations made under section 120 of the 2000 Act(e);

"local authority" ("*awdurdod lleol*") means a county council or a county borough council which is operating executive arrangements in accordance with the 2000 Act;"meeting" ("*cyfarfod*"), means a meeting of the executive of the authority, or of a committee or sub-committee of that executive, in accordance with these regulations;

"newspaper" ("*papur newydd*") includes -

- (a) a news agency which systematically carries on the business of selling and supplying reports or information to newspapers; and
- (b) any organisation which is systematically engaged in collecting news -
 - (i) for sound or television broadcasts; or
 - (ii) for inclusion in programmes to be included in any programme service within the meaning of the Broadcasting Act 1990 other than a sound or television broadcasting service within the meaning of Part III or Part I of that Act respectively(f); or
 - (iii) for use in electronic or any other format to provide news to the public by means of the Internet .

"overview and scrutiny committee" ("*pwyllgor trosolygu a chraffu*"), means a committee appointed in pursuance of section 21 of the 2000 Act (overview and scrutiny committees);

"political adviser or assistant" ("*cyngorydd neu gynorthwydd gwleidyddol*") means a person appointed in pursuance of section 9 of the Local Government and Housing Act 1989 (assistants for political groups)(g) or paragraph 6 of Schedule 1 to the 2000 Act (mayor's assistant);

"proper officer" ("*swyddog priodol*") has the same meaning as in section 270(3) of the 1972 Act (general provisions as to interpretation);

"relevant local authority" ("*awdurdod lleol perthnasol*") means the local authority whose

(e) 1990 p.42. Ceir y diffiniad o "programme service" yn adran 201. Mewnosodwyd is-adran (1)(bb) o'r adran honno gan Ddeddf Darlledu 1996 (p.55), Atodlen 10, Rhan I, paragraff 11. Ceir diffiniad o "sound broadcasting service" yn adran 126(1), a ddiwygiwyd gan Ddeddf Darlledu 1996, Atodlen 10, Rhan I, paragraff 9. Ceir diffiniad o "television broadcasting service" yn adran 2(5) a ddiwygiwyd gan Ddeddf Darlledu 1996, Atodlen 10, Rhan I, paragraff 1.

(e) See regulation 11 of the Local Authorities (Executive Arrangements) (Discharge of Functions) (Wales) Regulations 2001 (S.I. 2001/?).

(f) 1990 c.42. The definition of "programme service" is to be found in section 201. Subsection (1)(bb) of that section was inserted by the Broadcasting Act 1996 (c.55), Schedule 10, Part I, paragraph 11. The definition of "sound broadcasting service" is to be found in section 126(1), amended by the Broadcasting Act 1996, Schedule 10, Part I, paragraph 9. The definition of "television broadcasting service" will be found in section 2(5), amended by the Broadcasting Act 1996, Schedule 10, Part I, paragraph 1.

(g) 1989 c.42.

ystyr "pwyllgor safonau" ("*standards committee*") yw pwyllgor safonau'r awdurdod lleol perthnasol fel y'i sefydlwyd o dan adran 53 o Ddeddf 2000 (pwyllgorau safonau);

ystyr "pwyllgor trosolygu a chraffu" ("*overview and scrutiny committee*") yw pwyllgor a benodir yn unol ag adran 21 o Ddeddf 2000 (pwyllgorau trosolygu a chraffu);

mae i "swyddog priodol" yr un ystyr â "*proper officer*" yn adran 270(3) o Ddeddf 1972 (darpariaethau cyffredinol o ran dehongli).

RHAN II

CANIATÂD I FYND I GYFARFODYDD GWEITHREDIAETHAU AWDURDODAU LLEOL A'U PWYLLGORAU A DARPARIAETHAU MEWN CYSYLLTIAD Â PHENDERFYNIADAU GWEITHREDIAETH

Cyfarfodydd gweithrediaethau awdurdodau lleol a'u pwyllgorau i'w cynnal yn gyhoeddus

3. Yn ddarostyngedig i reoliad 4, rhaid i gyfarfod gweithrediaeth awdurdod lleol, neu bwyllgor neu is-bwyllgor i'r weithrediaeth honno, gael ei gynnal yn gyhoeddus.

Caniatâd i'r cyhoedd fynd i gyfarfodydd gweithrediaethau awdurdodau lleol a'u pwyllgorau

4.-(1) Rhaid i gyfarfod fod yn agored i'r cyhoedd ac eithrio i'r graddau y mae'r cyhoedd yn cael eu gwahardd (boed hynny yn ystod y cyfan neu ran o'r trafodion) o dan baragraff (2) neu drwy benderfyniad o dan baragraff (3) (gan gynnwys y paragraff hwnnw fel y'i cymhwysir gan baragraff (4)).

(2) Rhaid gwahardd y cyhoedd o gyfarfod yn ystod eitem fusnes pa bryd bynnag y mae'n debyg, gyda golwg ar natur y busnes sydd i'w drafod neu natur y trafodion, pe bai aelodau o'r cyhoedd yn bresennol yn ystod yr eitem honno, y byddai gwybodaeth gyfrinachol yn cael ei datgelu iddynt gan dorri'r rhwymedigaeth cyfrinachedd; a rhaid peidio â chymryd bod unrhyw beth yn y Rheoliadau hyn yn awdurdodi datgelu gwybodaeth gyfrinachol gan dorri'r rhwymedigaeth cyfrinachedd neu ei gwneud yn ofynnol i'w datgelu.

(3) Gall gweithrediaeth awdurdod lleol basio cynnig i wahardd y cyhoedd o un o gyfarfodydd y weithrediaeth yn ystod eitem fusnes pa bryd bynnag y mae'n debyg, gyda golwg ar natur y busnes sydd i'w drafod neu natur y trafodion, pe bai aelodau o'r cyhoedd yn bresennol yn ystod yr eitem honno, y byddai gwybodaeth esempt yn cael ei datgelu iddynt.

executive is responsible for the discharge of the function to which the executive decision relates;

"report" ("*adroddiad*") in relation to an executive decision does not include a report in draft form;

"standards committee" ("*pwyllgor safonau*") means the standards committee of the relevant local authority as established under section 53 of the 2000 Act (standards committees).

PART II

ADMISSION TO MEETINGS OF LOCAL AUTHORITY EXECUTIVES AND THEIR COMMITTEES AND PROVISIONS IN CONNECTION WITH EXECUTIVE DECISIONS

Meetings of local authority executives and their committees to be held in public

3. Subject to regulation 4, a meeting of the executive of a local authority, or of a committee or sub-committee of such an executive, shall be held in public.

Admission of the public to meetings of local authority executives and their committees

4.-(1) A meeting shall be open to the public except to the extent that the public are excluded (whether during the whole or part of the proceedings) under paragraph (2) or by resolution under paragraph (3) (including that paragraph as applied by paragraph (4)).

(2) The public shall be excluded from a meeting during an item of business whenever it is likely, in view of the nature of the business to be transacted or the nature of the proceedings, that, if members of the public were present during that item, confidential information would be disclosed to them in breach of the obligation of confidence; and nothing in these Regulations shall be taken to authorise or require the disclosure of confidential information in breach of the obligation of confidence.

(3) A local authority executive may pass a resolution to exclude the public from a meeting of the executive during an item of business whenever it is likely, in view of the nature of the business to be transacted or the nature of the proceedings, that if members of the public were present during that item there would be disclosure to them of exempt information.

(4) Bydd paragraff (3) yn gymwys mewn perthynas â phwyllgor gweithrediaeth awdurdod lleol a chyfarfod y pwyllgor hwnnw yn yr un modd ag y mae'n gymwys mewn perthynas â gweithrediaeth awdurdod lleol a chyfarfod y weithrediaeth.

(5) Rhaid i benderfyniad o dan baragraff (3) (gan gynnwys y paragraff hwnnw fel y'i cymhwysir gan baragraff (4)) -

- (a) nodi'r trafodion, neu'r rhan o'r trafodion, y mae'n gymwys iddynt, a
- (b) datgan, trwy gyfeirio at y disgrifiadau yn Atodlen 12A i Ddeddf 1972(f), y disgrifiad o wybodaeth esempt sydd wedi arwain at wahardd y cyhoedd.

(6) Bydd y darpariaethau canlynol yn gymwys i gyfarfod cyhoeddus -

- (a) rhaid rhoi hysbysiad cyhoeddus o amser y cyfarfod a'r man cyfarfod -
 - (i) drwy ei bostio ym mhrif swyddfeydd yr awdurdod o leiaf dri diwrnod clir cyn y cyfarfod; neu
 - (ii) pan fydd y cyfarfod yn cael ei gynnull ar rybudd byrrach drwy ei bostio ym mhrif swyddfeydd yr awdurdod adeg cynnull y cyfarfod; a
- (b) tra bydd y cyfarfod yn agored i'r cyhoedd -
 - (i) ni fydd gan y weithrediaeth neu, yn ôl fel y digwydd, y pwyllgor, bŵer i wahardd aelodau o'r cyhoedd o'r cyfarfod; a
 - (ii) cyn belled ag y bo'n ymarferol, rhaid darparu cyfleusterau rhesymol i gynrychiolwyr papurau newydd sydd wedi'u hachredu'n briodol ac sy'n mynychu'r cyfarfod er mwyn rhoi adroddiad am y trafodion i'r papurau newydd hynny wneud eu hadroddiad ac, oni bai bod y cyfarfod yn cael ei gynnal mewn adeiladau nad ydynt yn perthyn i'r awdurdod neu nad ydynt ar y ffôn, i ffonio'r adroddiad ar eu traul eu hunain.

(7) Ni fydd dim yn y rheoliad hwn yn ei gwneud yn ofynnol i weithrediaeth neu bwyllgor ganiatáu i ffotograffau gael eu cymryd o unrhyw drafodion, na bod unrhyw fodd yn cael ei ddefnyddio i alluogi personau nad ydynt yn bresennol i weld neu glywed unrhyw drafodion (boed hynny ar y pryd neu'n ddiweddarach), na bod unrhyw adroddiad llafar yn cael ei wneud ar unrhyw drafodion wrth iddynt ddiwydd.

(8) Nid yw'r rheoliad hwn yn rhagfarnu unrhyw bŵer gwahardd i roi terfyn ar ymddygiad afreolus neu gamymddygiad arall mewn cyfarfod neu i'w atal.

(4) Paragraph (3) shall apply in relation to a committee of a local authority executive and a meeting of that committee as it applies in relation to a local authority executive and a meeting of the executive.

(5) A resolution under paragraph (3) (including that paragraph as applied by paragraph (4)) shall -

- (a) identify the proceedings, or the part of the proceedings, to which it applies, and
- (b) state, by reference to the descriptions in Schedule 12A to the 1972 Act(h), the description of exempt information giving rise to the exclusion of the public.

(6) The following provisions shall apply in relation to a public meeting -

- (a) public notice of the time and place of the meeting shall be given -
 - (i) by posting it at the principal offices of the authority three clear days at least before the meeting; or
 - (ii) where the meeting is convened at shorter notice by posting it at the principal offices of the authority at the time that the meeting is convened; and
- (b) while the meeting is open to the public -
 - (i) the executive or, as the case may be, the committee, shall not have power to exclude members of the public from the meeting; and
 - (ii) duly accredited representatives of newspapers attending the meeting for the purpose of reporting the proceedings for those newspapers shall, so far as practicable, be afforded reasonable facilities for taking their report and, unless the meeting is held in premises not belonging to the authority or not on the telephone, for telephoning the report at their own expense.

(7) Nothing in this regulation shall require an executive or committee to permit the taking of photographs of any proceedings, or the use of any means to enable persons not present to see or hear any proceedings (whether at the time or later), or the making of any oral report on any proceedings as they take place.

(8) This regulation is without prejudice to any power of exclusion to suppress or prevent disorderly conduct or other misbehaviour at a meeting.

(f) Mewnsoodwyd Atodlen 12A gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cyfle i Weld Gwybodaeth) 1985 (p.43).

(h) Schedule 12A was inserted by the Local Government (Access to Information) Act 1985 (c.43).

Y cyfle i weld agendâu ac adroddiadau cysylltiedig ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus

5.-(1) Rhaid i gopïau o'r agenda ar gyfer cyfarfod ac, yn ddarostyngedig i baragraff (2), gopïau o bob adroddiad ar gyfer cyfarfod fod yn agored i aelodau o'r cyhoedd eu harchwilio ym mhrif swyddfeydd yr awdurdod yn unol â pharagraff (3).

(2) Os gwêl y swyddog priodol yn dda, gellir hepgor o'r copïau o'r adroddiadau sy'n cael eu darparu yn unol â pharagraff (1) y cyfan o unrhyw adroddiad, neu unrhyw ran ohono, nad yw'n ymwneud ond ag eitemau nad yw'r cyfarfod, ym marn y swyddog priodol, yn debyg o fod yn agored i'r cyhoedd tra byddant yn cael eu trafod.

(3) Rhaid i unrhyw ddogfen y mae'n ofynnol o dan baragraff (1) iddi fod yn agored i'w harchwilio fod yn agored felly am o leiaf dri diwrnod clir cyn y cyfarfod ac eithrio -

- (a) pan fydd y cyfarfod yn cael ei gynnull ar rybudd byrrach, rhaid i gopïau o'r agenda a'r adroddiadau fod yn agored i'w harchwilio o'r amser y mae'r cyfarfod yn cael ei gynnull, a
- (b) pan fydd eitem yn cael ei hychwanegu at agenda, y mae copïau ohoni yn agored i'r cyhoedd eu harchwilio, rhaid i gopïau o'r eitem (neu o'r agenda ddiwygiedig), ac o unrhyw adroddiad sy'n ymwneud â'r eitem, sydd i'w hystyried yn y cyfarfod fod yn agored i'w harchwilio o'r amser y mae'r eitem yn cael ei hychwanegu at yr agenda;

ond ni fydd dim yn y paragraff hwn yn ei gwneud yn ofynnol i gopïau o unrhyw agenda, eitem neu adroddiad fod yn agored i'r cyhoedd eu harchwilio tan fod copïau ar gael i aelodau o'r weithrediaeth neu, yn ôl fel y digwydd, y pwyllgor.

(4) Ni chaiff eitem fusnes ei hystyried mewn cyfarfod oni bai bod naill ai -

- (a) copi o'r agenda gan gynnwys yr eitem (neu gopi o'r eitem) yn agored i aelodau o'r cyhoedd ei archwilio yn unol â pharagraff (1) am o leiaf dri diwrnod clir cyn y cyfarfod; neu
- (b) pan fydd y cyfarfod yn cael ei gynnull ar rybudd byrrach, o'r amser y bydd y cyfarfod yn cael ei gynnull.

(5) Pan na fydd yr adroddiad cyfan neu unrhyw ran ohono ar gyfer cyfarfod yn agored i'r cyhoedd ei archwilio yn rhinwedd paragraff (2) -

- (a) rhaid marcio pob copi o'r adroddiad neu'r rhan â'r geiriau "Ddim i'w Gyhoeddi" a "Not for Publication"; a
- (b) rhaid datgan ar bob copi o'r adroddiad cyfan neu unrhyw ran ohono, drwy gyfeirio at y disgrifiadau yn Atodlen 12A i Ddeddf 1972, y

Access to agenda and connected reports for public meetings

5.-(1) Copies of the agenda for a meeting and, subject to paragraph (2), copies of every report for the meeting shall be open to inspection by members of the public at the principal offices of the authority in accordance with paragraph (3).

(2) If the proper officer thinks fit, there may be excluded from the copies of reports provided in pursuance of paragraph (1) the whole of any report which, or of any part which, relates only to items during which, in the proper officer's opinion, the meeting is likely not to be open to the public.

(3) Any document which is required by paragraph (1) to be open to inspection shall be so open at least three clear days before the meeting, except that -

- (a) where, the meeting is convened at shorter notice, the copies of the agenda and reports shall be open to inspection from the time the meeting is convened, and
- (b) where an item is added to an agenda, copies of which are open to inspection by the public, copies of the item (or of the revised agenda), and of any report relating to the item, for consideration at the meeting shall be open to inspection from the time the item is added to the agenda;

but nothing in this paragraph requires copies of any agenda, item or report to be open to inspection by the public until copies are available to members of the executive or, as the case may be, the committee.

(4) An item of business may not be considered at a meeting unless either -

- (a) a copy of the agenda including the item (or a copy of the item) is open to inspection by members of the public in pursuance of paragraph (1) for at least three clear days before the meeting; or
- (b) where the meeting is convened at shorter notice, from the time the meeting is convened.

(5) Where by virtue of paragraph (2) the whole or any part of a report for a meeting is not open to inspection by the public -

- (a) every copy of the report or of the part shall be marked "Not for Publication" and "Ddim i'w Gyhoeddi"; and
- (b) there shall be stated on every copy of the whole or any part of the report, by reference to the descriptions in Schedule 12A to the 1972

disgrifiad o wybodaeth esempt y mae'r weithrediaeth, neu yn ôl fel y digwydd, y pwyllgor, yn debygol o wahardd y cyhoedd o'i herwydd yn ystod yr eitem y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi.

(6) Ac eithrio yn ystod unrhyw ran o gyfarfod y mae'r cyhoedd yn cael ei wahardd ohono, rhaid trefnu bod nifer rhesymol o gopïau o'r agenda ac, yn ddarostyngedig i baragraff (8), o'r adroddiadau ar gyfer y cyfarfod, ar gael i aelodau o'r cyhoedd sy'n bresennol yn y cyfarfod eu defnyddio.

(7) Rhaid darparu, ar gais ac ar ôl i gludiant neu unrhyw dâl angenrheidiol arall a godir ar gyfer trosglwyddo gael ei dalu, er budd unrhyw bapur newydd -

- (a) copi o'r agenda ar gyfer cyfarfod ac, yn ddarostyngedig i baragraff (8), copi o bob un o'r adroddiadau sydd i'w hystyried yn y cyfarfod;
- (b) y datganiadau neu'r manylion pellach hynny, os o gwbl, y mae eu hangen i ddangos natur yr eitemau sydd i'w cynnwys ar yr agenda; ac
- (c) os gwêl y swyddog priodol yn dda, yn achos unrhyw eitem, copïau o unrhyw ddogfen arall a ddarparwyd i aelodau'r weithrediaeth mewn cysylltiad â'r eitem.

(8) Mae paragraff (3) yn gymwys mewn perthynas â chopïau o adroddiadau sy'n cael eu darparu yn unol â pharagraff (6) neu (7) fel y mae'n gymwys i gopïau o adroddiadau sy'n cael eu darparu yn unol â pharagraff (1).

Cofnodi penderfyniadau sy'n cael eu gwneud yng nghyfarfodydd gweithrediaethau awdurdodau lleol a'u pwyllgorau

6.-(1) Rhaid i'r swyddog priodol, neu os na fydd y swyddog priodol yn bresennol, cynrychiolydd y swyddog priodol, fynychu unrhyw un o gyfarfodydd corff penderfynu y mae penderfyniad gweithrediaeth i'w wneud ynddo a sicrhau bod datganiad ysgrifenedig yn cael ei lunio cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl y cyfarfod mewn perthynas â phob penderfyniad gweithrediaeth sy'n cael ei wneud yn y cyfarfod hwnnw y mae'n rhaid iddo gynnwys yr wybodaeth a bennir ym mharagraff (2).

(2) Rhaid i'r datganiad y cyfeirir ato ym mharagraff (1) gynnwys -

- (a) cofnod o'r penderfyniad gan gynnwys dyddiad ei wneud;
- (b) cofnod o'r rhesymau dros y penderfyniad;
- (c) cofnod o unrhyw ddatganiad o fuddiant mewn perthynas â'r mater y penderfynwyd arno ac y mae unrhyw aelod o'r corff penderfynu a wnaeth y penderfyniad yn ei ddatgan;

Act, the description of exempt information by virtue of which the executive or, as the case may be, the committee, is likely to exclude the public during the item to which the report relates.

(6) Except during any part of a meeting from which the public are excluded, there shall be made available for the use of members of the public present at the meeting a reasonable number of copies of the agenda and, subject to paragraph (8), of the reports for the meeting.

(7) There shall, on request and on payment of postage or other necessary charge for transmission, be supplied for the benefit of any newspaper -

- (a) a copy of the agenda for a meeting and, subject to paragraph (8), a copy of each of the reports for consideration at the meeting;
- (b) such further statements or particulars, if any, as are necessary to indicate the nature of the items included in the agenda; and
- (c) if the proper officer thinks fit in the case of any item, copies of any other document supplied to members of the executive in connection with the item.

(8) Paragraph (3) applies in relation to copies of reports provided in pursuance of paragraph (6) or (7) as it applies in relation to copies of reports provided in pursuance of paragraph (1).

Recording of decisions taken at meetings of local authority executives and their committees

6.-(1) The proper officer, or in the event of the proper officer not being present, the proper officer's representative, shall attend any meeting of a decision-making body at which an executive decision is to be made and ensure that a written statement is produced as soon as is reasonably practicable after the meeting in respect of every executive decision made at that meeting which must include the information specified in paragraph (2).

(2) The statement referred to in paragraph (1) must include -

- (a) a record of the decision including the date it was made;
- (b) a record of the reasons for the decision;
- (c) a record of any declaration of interest in relation to the matter decided which is declared by any member of the decision making body which made the decision;

(ch) mewn perthynas ag unrhyw fuddiant sy'n cael ei ddatgan, nodyn ynghylch unrhyw ollyngiad a ganiatawyd gan bwyllgor safonau'r awdurdod lleol; a

(d) manylion unrhyw ymgynghoraid a gynhaliwyd yn unol â rheolau sefydlog a chyfansoddiad yr awdurdod a phan nad oes unrhyw ymgynghoriad o'r fath wedi bod, y rhesymau dros hynny.

(3) At ddibenion paragraff (1) o'r rheoliad hwn ystyr "cynrychiolydd y swyddog priodol" yw swyddog yr awdurdod lleol neu'r person neu'r personau a enwebwyd gan y swyddog priodol i fynychu'r cyfarfod er mwyn llunio'r datganiad y cyfeirir ato yn y paragraff hwnnw.

Cofnodi penderfyniadau gweithrediaeth sy'n cael eu gwneud gan unigolion

7.-(1) Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl i aelod unigol wneud unrhyw benderfyniad gweithrediaeth, rhaid i'r aelod hwnnw gyfarwyddo'r swyddog priodol i lunio datganiad ysgrifenedig am y penderfyniad gweithrediaeth hwnnw sy'n cynnwys yr wybodaeth a bennir ym mharagraff (4).

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3) rhaid i unrhyw benderfyniad gweithrediaeth sy'n cael ei wneud gan aelod unigol beidio â chael ei weithredu nes bod datganiad ysgrifenedig wedi'i lunio yn unol â pharagraff (1).

(3) Pan fydd y dyddiad erbyn pryd y mae rhaid gweithredu penderfyniad gweithrediaeth yn peri bod cydymffurfio â pharagraff (2) yn anymarferol, dim ond pan fydd y penderfynwr wedi cael cytundeb un o'r canlynol, sef -

- (a) cadeirydd y pwyllgor craffu perthnasol; neu
- (b) os nad oes unrhyw berson o'r fath, neu os nad yw'r person hwnnw yn gallu gweithredu, cadeirydd yr awdurdod lleol perthnasol; neu
- (c) os nad oes unrhyw gadeirydd ar gyfer y pwyllgor craffu perthnasol na'r awdurdod lleol perthnasol, is-gadeirydd yr awdurdod lleol perthnasol; bod gwneud y penderfyniad yn fater o frys ac nad oes modd ei ohirio'n rhesymol, y mae rhaid gweithredu'r penderfyniad.

(4) Rhaid i'r datganiad y cyfeirir ato ym mharagraff (1) gynnwys -

- (a) cofnod o'r penderfyniad, gan gynnwys dyddiad ei wneud;
- (b) cofnod o'r rhesymau dros y penderfyniad;
- (c) cofnod o unrhyw fuddiant sy'n cael ei ddatgan gan unrhyw aelod o'r weithrediaeth y mae'r aelod yn ymgynghori ag ef, mewn perthynas â'r penderfyniad ac o unrhyw fuddiant sy'n cael

(d) in respect of any declared interest, a note of any dispensation granted by the local authority's standards committee; and

(e) details of any consultation undertaken in accordance with the authority's standing orders and constitution and where such consultation has not taken place, the reasons why that is the case.

(3) For the purposes of paragraph (1) of this regulation "proper officer's representative" means the officer of the local authority or the person or persons nominated by the proper officer to attend the meeting for the purpose of producing the statement referred to in that paragraph.

Recording of executive decisions made by individuals

7.-(1) As soon as is reasonably practicable after an individual member has made any executive decision, that member shall instruct the proper officer to produce a written statement of that executive decision which includes the information specified in paragraph (4).

(2) Subject to paragraph (3) any executive decision made by an individual member shall not be implemented until a written statement has been produced in accordance with paragraph (1).

(3) Where the date by which an executive decision must be implemented makes compliance with paragraph (2) impracticable, the decision shall only be implemented where the decision-maker has obtained agreement from -

- (a) the chairperson of the relevant scrutiny committee; or
- (b) if there is no such person, or that person is unable to act, the chairperson of the relevant local authority; or
- (c) if there is no chairperson of either the relevant scrutiny committee or the relevant local authority, the vice-chairman of the relevant local authority;

that the making of the decision is urgent and cannot reasonably be deferred.

(4) The statement referred to in paragraph (1) must include -

- (a) a record of the decision including the date it was made;
- (b) a record of the reasons for the decision;
- (c) a record of any interest declared by any executive member who is consulted by the member, in relation to the decision and of any

ei ddatgan gan unrhyw aelod o'r weithrediaeth a fuasai'n benderfynwr oni bai am y datganiad buddiant hwnnw;

- (ch) mewn perthynas ag unrhyw fuddiant sy'n cael ei ddatgan, nodyn o unrhyw ollyngiad a ganiatawyd gan bwyllgor safonau'r awdurdod lleol;
- (d) manylion unrhyw ymgynghoriad a gynhaliwyd yn unol â rheolau sefydlog a chyfansoddiad yr awdurdod lleol a phan nad oes unrhyw ymgynghoriad o'r fath wedi bod, y rhesymau dros hynny; ac
- (dd) cofnod o unrhyw resymau am y brys a arweiniodd at weithredu'r penderfyniad cyn paratoi'r datganiad.

(5) Penderfyniadau rhagnodedig yw penderfyniadau gweithrediaeth sy'n cael eu gwneud gan aelodau unigol o weithrediaethau awdurdodau lleol at ddibenion adran 22(4) o Ddeddf 2000 (dyletswydd i gadw cofnod ysgrifenedig o benderfyniadau sy'n cael eu gwneud gan aelodau unigol o weithrediaethau awdurdod lleol).

Archwilio dogfennau yn dilyn penderfyniadau gweithrediaeth

8.-(1) Ar ôl cyfarfod corff penderfynu lle mae penderfyniad gweithrediaeth wedi'i wneud neu ar ôl i aelod unigol wneud penderfyniad gweithrediaeth, rhaid i'r swyddog priodol sicrhau y bydd copi -

- (a) o unrhyw ddatganiadau ysgrifenedig a baratowyd yn unol â rheoliadau 6 neu 7; a
- (b) o unrhyw adroddiad a ystyriwyd yn y cyfarfod neu, yn ôl fel y digwydd, a ystyriwyd gan yr aelod unigol, sef adroddiad sy'n berthnasol i benderfyniad sy'n cael ei gofnodi yn unol â rheoliadau 6 neu 7 neu, pan nad oes ond rhan o'r adroddiad yn berthnasol i'r penderfyniad hwnnw, y rhan honno,

ar gael i'w archwilio gan aelodau o'r cyhoedd, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, ym mhrif swyddfeydd yr awdurdod lleol perthnasol.

(2) Pan fydd cais yn cael ei wneud ar ran papur newydd am gopi o unrhyw un o'r dogfennau sydd ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio o dan baragraff (1), rhaid darparu'r dogfennau hynny er budd y papur newydd gan yr awdurdod lleol ar ôl i'r papur newydd dalu costau cludiant, costau copïo neu unrhyw daliadau angenrheidiol eraill i'r awdurdod lleol am ei drosglwyddo.

(3) Rhaid peidio â chymryd bod unrhyw beth yn y rheoliad hwn yn awdurdodi swyddog priodol i ddatgelu gwybodaeth esempt neu gyfrinachol neu'n ei gwneud yn ofynnol iddo ei datgelu.

interest declared by any executive member who would have been the decision-maker except for the declaration of such an interest;

- (d) in respect of any declared interest, a note of any dispensation granted by the local authority's standards committee;
- (e) details of any consultation undertaken in accordance with the local authority's standing orders and constitution and where such consultation has not taken place, the reasons why that is the case; and
- (f) a record of any reasons for urgency which led to the implementation of the decision before the preparation of the statement.

(5) Executive decisions made by individual members of local authority executives are prescribed decisions for the purposes of section 22(4) of the 2000 Act (duty to keep a written record of decisions made by individual members of local authority executives).

Inspection of documents following executive decisions

8.-(1) After a meeting of a decision making body at which an executive decision has been made or after an individual member has made an executive decision the proper officer shall ensure that a copy of -

- (a) any written statements prepared in accordance with regulations 6 or 7; and
- (b) any report considered at the meeting or, as the case may be, considered by the individual member which is relevant to a decision recorded in accordance with regulations 6 or 7 or, where only part of the report is relevant to such a decision, that part,

shall be available for inspection by members of the public, as soon as is reasonably practicable, at the principal offices of the relevant local authority.

(2) Where a request on behalf of a newspaper is made for a copy of any of the documents available for public inspection under paragraph (1), those documents shall be supplied for the benefit of the newspaper by the local authority on payment by the newspaper to the local authority of postage, copying or other necessary charges for transmission.

(3) Nothing in this regulation shall be taken to authorise or require a proper officer to disclose exempt or confidential information.

Archwilio papurau cefndir

9. Pan drefnir bod copi o'r adroddiad cyfan neu ran ohono ar gael i aelodau o'r cyhoedd ei archwilio yn unol â rheoliad 8, ar yr un pryd -

- (a) rhaid i gopi o restr a luniwyd gan y swyddog priodol o'r papurau cefndir i'r adroddiad neu ran o'r adroddiad, gael ei gynnwys yn yr adroddiad neu, yn ôl fel y digwydd, yn y rhan o'r adroddiad; a
- (b) rhaid trefnu bod o leiaf un copi o bob un o'r dogfennau a gynhwysir yn y rhestr honno ar gael i'r cyhoedd ei archwilio cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ym mhrif swyddfeydd yr awdurdod lleol perthnasol.

RHAN III

HAWLIAU YCHWANEGOL I AELODAU'R AWDURDOD LLEOL AC AELODAU PWYLLGORAU TROSOLYGU A CHRAFFU

Hawliau ychwanegol i aelodau awdurdodau lleol gael cyfle i weld dogfennau

10.-(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (2) a (3) rhaid i unrhyw ddogfen -

- (a) sydd ym meddiant gweithrediaeth awdurdod lleol, neu o dan ei rheolaeth; a
- (b) sy'n cynnwys deunydd ynghylch:
 - (i) unrhyw fusnes a drafodwyd yn un o gyfarfodydd corff penderfynu yr awdurdod hwnnw; neu
 - (ii) unrhywbenderfyniad sydd wedi'i wneud gan aelod unigol yn unol â threfniadau gweithrediaeth,

fod yn agored i unrhyw aelod o'r awdurdod lleol ei harchwilio pan ddaw'r cyfarfod i ben neu, pan gaiff penderfyniad gweithrediaeth ei wneud gan aelod unigol, yn union ar ôl i'r penderfyniad gael ei wneud.

(2) Pan yw'n ymddangos i'r swyddog priodol y byddai cydymffurfio â pharagraff (1) mewn perthynas â dogfen neu ran o ddogfen yn golygu datgelu gwybodaeth esempt o ddisgrifiad sy'n dod o fewn unrhyw un o baragraffau 1 i 6, 9, 11, 12, ac 14 o Ran I o Atodlen 12A i Ddeddf 1972, rhaid peidio â chydymffurfio â pharagraff (1) mewn perthynas â'r ddogfen neu'r rhan honno.

(3) Pan yw'n ymddangos i'r swyddog priodol y byddai cydymffurfio â pharagraff (1) mewn perthynas â dogfen neu ran o ddogfen yn golygu datgelu cyngor a ddarparwyd gan gynghorydd neu gynorthwydd gwleidyddol, rhaid peidio â chydymffurfio â'r paragraff hwnnw mewn perthynas â'r ddogfen neu'r rhan honno.

Inspection of background papers

9. When a copy of the whole or part of a report is made available for inspection by members of the public in accordance with regulation 8, at the same time -

- (a) a copy of a list compiled by the proper officer of the background papers to the report or part of the report, must be included in the report, or as the case may be, part of the report; and
- (b) at least one copy of each of the documents included in that list shall be available for inspection by members of the public as soon as is reasonably practicable at the principal offices of the relevant local authority.

PART III

ADDITIONAL RIGHTS FOR MEMBERS OF THE LOCAL AUTHORITY AND FOR MEMBERS OF OVERVIEW AND SCRUTINY COMMITTEES

Additional rights of access to documents for members of local authorities

10.-(1) Subject to paragraphs (2) and (3) any document which -

- (a) is in the possession, or under the control, of the executive of a local authority; and
- (b) contains material relating to:
 - (i) any business transacted at a meeting of a decision making body of that authority; or
 - (ii) any decision that has been made by an individual member in accordance with executive arrangements,

shall be open to inspection by any member of the local authority when the meeting concludes or, where an executive decision is made by an individual member, immediately after the decision has been made.

(2) Where it appears to the proper officer that compliance with paragraph (1) in relation to a document or part of a document would involve the disclosure of exempt information of a description falling within any of paragraphs 1 to 6, 9, 11, 12, and 14 of Part I of Schedule 12A to the 1972 Act, paragraph (1) shall not be complied with as regards that document or part.

(3) Where it appears to the proper officer that compliance with paragraph (1) in relation to a document or part of a document would involve the disclosure of advice provided by a political adviser or assistant, that paragraph shall not be complied with as regards that document or part.

(4) Mae'r hawliau sy'n cael eu rhoi gan baragraff (1) yn ychwanegol at unrhyw hawliau eraill a all fod gan aelod o awdurdod lleol ar wahân i'r rheoliad hwn.

Hawliau ychwanegol i aelodau pwyllgorau trosolygu a chraffu gael cyfle i weld dogfennau

11.-(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), bydd gan aelod o bwyllgor trosolygu a chraffu awdurdod lleol hawl i gael copiâu o unrhyw ddogfen -

- (a) sydd ym meddiant neu o dan reolaeth gweithrediaeth yr awdurdod hwnnw; a
- (b) sy'n cynnwys deunydd ynghylch -
 - (i) unrhyw fusnes a drafodwyd yn un o gyfarfodydd corff penderfynu'r awdurdod hwnnw; neu
 - (ii) unrhyw benderfyniad sydd wedi'i wneud gan aelod unigol o'r weithrediaeth honno yn unol â threfniadau gweithrediaeth.

(2) Ni fydd gan unrhyw aelod o bwyllgor trosolygu a chraffu hawl i gael copi o unrhyw ddogfen neu ran o ddogfen sy'n cynnwys gwybodaeth gyfrinachol neu esempt neu gyngor a ddarparwyd gan gynghorydd neu gynorthwydd gwleidyddol oni bai bod yr wybodaeth honno yn berthnasol i'r canlynol -

- (a) cam neu benderfyniad y mae'r pwyllgor hwnnw neu is-bwyllgor i'r pwyllgor hwnnw yn ei adolygu neu'n craffu arno; neu
- (b) yn berthnasol i unrhyw adolygiad sydd wedi'i gynnwys mewn unrhyw raglen waith gan y pwyllgor neu'r is-bwyllgor hwnnw.

(3) Os bydd aelod o bwyllgor trosolygu a chraffu yn gofyn am gopi o unrhyw ddogfen neu o unrhyw ran o ddogfen yn unol â pharagraffau (1) a (2) rhaid i'r swyddog priodol benderfynu a yw'r wybodaeth yn berthnasol fe y'i pennir ym mharagraffau (2)(a) a (b).

(4) Nid oes dim yn y rheoliad hwn yn caniatáu i aelod o bwyllgor trosolygu a chraffu ddatgelu gwybodaeth gyfrinachol neu esempt heblaw'r hyn a all gael ei awdurdodi gan unrhyw ddeddfiad arall.

RHAN IV

DARPARIAETHAU PELLACH

Yr awdurdodau lleol i gyhoeddi gwybodaeth ychwanegol

12.-(1) Rhaid i awdurdod lleol gadw cofrestr -

- (a) sy'n nodi enw a chyfeiriad pob aelod o weithrediaeth yr awdurdod am y tro a'r ward neu'r etholaeth (os o gwbl) y mae'r aelod hwnnw yn ei chynrychioli;
- (b) sy'n nodi enw a chyfeiriad pob aelod o bob pwyllgor gweithrediaeth yr awdurdod am y tro;

(4) The rights conferred by paragraph (1) are in addition to any other rights that a member of a local authority may have apart from this regulation.

Additional rights of access for members of overview and scrutiny committees

11.-(1) Subject to paragraph (2), a member of an overview and scrutiny committee of a local authority shall be entitled to copies of any document which -

- (a) is in the possession or under the control of the executive of that authority; and
- (b) contains material relating to -
 - (i) any business transacted at a meeting of a decision making body of that authority; or
 - (ii) any decision that has been made by an individual member of that executive in accordance with executive arrangements.

(2) No member of an overview and scrutiny committee shall be entitled to a copy of any document or part of a document which contains confidential or exempt information or advice provided by a political adviser or assistant unless that information is relevant to -

- (a) an action or decision that is being reviewed or scrutinised by such a committee or a sub-committee of that committee; or
- (b) is relevant to any review contained in any programme of work of such a committee or sub-committee.

(3) Where a member of an overview and scrutiny committee shall require a copy of any document or part of a document in accordance with paragraphs (1) and (2) the proper officer shall determine whether the information is relevant as specified in paragraphs (2)(a) and (b).

(4) Nothing in this regulation permits the disclosure of confidential or exempt information by a member of an overview and scrutiny committee other than may be authorised by any other enactment.

PART IV

FURTHER PROVISIONS

Local authorities to publish additional information

12.-(1) A local authority shall maintain a register -

- (a) stating the name and address of every member of the authority's executive for the time being and the ward or division (if any) which that member represents;
- (b) stating the name and address of every member of each committee of the authority's executive for the time being;

(c) sy'n pennu swyddogaethau'r weithrediaeth sydd, am y tro, yn arferadwy gan aelodau unigol o'r weithrediaeth; ac

(ch) sy'n nodi, mewn perthynas â phob swyddogaeth o'r fath, enw'r aelod y mae'n arferadwy trwyddo.

(2) Rhaid cadw ym mhrif swyddfa pob awdurdod lleol grynodedb ysgrifenedig o'r hawliau -

(a) i fynychu cyfarfodydd gweithrediaeth awdurdod lleol a phwyllgorau'r weithrediaeth honno, a

(b) i archwilio a chopïo dogfennau ac i gael dogfennau,

sef hawliau sy'n cael eu rhoi gan y Rheoliadau hyn.

(3) Rhaid i'r gofrestr a gedwir o dan baragraff (1) a'r crynodeb a gedwir o dan baragraff (2) fod yn agored i'r cyhoedd eu harchwilio ym mhrif swyddfa'r awdurdod.

Darpariaeth atodol

13.-(1) Rhaid i ddogfen y mae unrhyw un o ddarpariaethau'r Rheoliadau hyn yn cyfarwyddo iddi fod yn agored i'w harchwilio fod ar gael i'w harchwilio -

(a) ar bob adeg resymol ym mhrif swyddfeydd yr awdurdod lleol; a

(b) yn achos dogfennau sydd i fod ar gael i'w harchwilio yn unol â rheoliad 9, ar ôl i'r person sy'n ceisio archwilio'r dogfennau dalu unrhyw ffi resymol sy'n ofynnol gan yr awdurdod lleol.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), pan fydd dogfen yn agored i'w harchwilio gan berson o dan unrhyw un o ddarpariaethau'r Rheoliadau hyn, caiff y person -

(a) gwneud copi o'r ddogfen gyfan neu ran ohoni, neu

(b) ei gwneud yn ofynnol i'r person sy'n gofalu am y ddogfen ddarparu i'r person sy'n gofyn am ei harchwilio gopi ffotograffig o'r ddogfen neu ddetholiadau ohoni,

ar ôl talu unrhyw ffi resymol sy'n ofynnol gan yr awdurdod lleol.

(3) Nid yw paragraff (2) yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw weithred gael ei chyflawni nac yn awdurdodi cyflawni unrhyw weithred sy'n torri'r hawlfraint mewn unrhyw waith ac eithrio, pan yw perchennog yr hawlfraint yn awdurdod lleol, na fydd unrhyw beth a wneir yn unol â'r paragraff hwnnw yn gyfystyr â thorri'r hawlfraint.

(4) Pan fydd unrhyw ddogfen y mae'r Rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol iddi fod yn agored i'r cyhoedd ei harchwilio -

(c) specifying the functions of the executive which, for the time being, are exercisable by individual members of the executive; and

(d) stating, as respects each such function, the name of the member by whom it is exercisable.

(2) There shall be kept at the principal office of every local authority a written summary of the rights -

(a) to attend meetings of a local authority executive and of committees of such an executive, and

(b) to inspect and copy documents and to be furnished with documents,

which are conferred by these Regulations.

(3) The register maintained under paragraph (1), and the summary kept under paragraph (2) shall be open to inspection by the public at the principal office of the authority.

Supplementary provision

13.-(1) A document directed by any provision of these Regulations to be open to inspection shall be available for inspection -

(a) at all reasonable hours at the principal offices of the local authority; and

(b) in the case of documents to be available for inspection pursuant to regulation 9, upon payment by the person seeking to inspect the documents of any reasonable fee required by the local authority.

(2) Subject to paragraph (3) where a document is open to inspection by a person under any provision of these Regulations, the person may -

(a) make a copy of the whole or part of the document, or

(b) require the person having custody of the document to supply to the person requiring inspection a photographic copy of or of extracts from the document,

upon payment of such reasonable fee as may be required by the local authority.

(3) Paragraph (2) does not require or authorise the doing of any act which infringes the copyright in any work except that, where the owner of the copyright is a local authority, nothing done in pursuance of that paragraph shall constitute an infringement of the copyright.

(4) Where any document required by these Regulations to be open to inspection by the public -

- (a) yn cael ei darparu i aelodau o'r cyhoedd, neu'n agored iddynt ei harchwilio, neu
- (b) yn cael ei darparu er budd unrhyw bapur newydd, yn unol â rheoliad 5 neu 8,

bydd cyhoeddi drwy hynny unrhyw fater difenwol sydd wedi'i gynnwys yn y ddogfen yn freintiedig oni phroffir bod y cyhoeddiad wedi'i wneud â malais.

(5) Rhaid i unrhyw gofnod ysgrifenedig o benderfyniad gweithrediaeth, neu unrhyw adroddiad y mae rheoliad 8 yn ei gwneud yn ofynnol iddo fod ar gael i aelodau o'r cyhoedd ei archwilio, gael ei gadw gan yr awdurdod lleol a rhaid trefnu iddo fod ar gael i'w archwilio gan y cyhoedd am gyfnod o chwe mlynedd o leiaf gan ddechrau ar y dyddiad y gwnaed y penderfyniad, y mae'r cofnod neu'r adroddiad yn ymwneud ag ef.

(6) Rhaid i unrhyw bapurau cefndir y mae rheoliad 9 yn ei gwneud yn ofynnol iddynt fod ar gael i aelodau o'r cyhoedd eu harchwilio gael eu cadw gan yr awdurdod lleol a bod ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd am gyfnod o bedair blynedd o leiaf gan ddechrau ar y dyddiad y gwnaed y penderfyniad, y mae'r papurau cefndir yn ymwneud ag ef.

(7) Mae'r hawliau sy'n cael eu rhoi i unrhyw berson gan y Rheoliadau hyn i archwilio, copïo neu gael dogfennau yn ychwanegol at unrhyw hawliau o'r fath a all fod gan y person hwnnw ar wahân i'r rheoliad hwn.

Tramgwyddau Rhan II

14.-(1) Mae person sy'n gofalu am ddogfen y mae rheoliad 5, 8 neu 9 yn ei gwneud yn ofynnol iddi fod ar gael i'r cyhoedd ei harchwilio, yn cyflawni tramgwydd os yw'r person hwnnw, heb esgus rhesymol -

- (a) yn fwriadol yn rhwystro unrhyw berson rhag arfer hawl sy'n cael ei rhoi gan y Rheoliadau hyn i archwilio'r cyfan neu ran o ddogfen, neu wneud copi ohoni; neu
- (b) yn gwrthod darparu copi o'r ddogfen gyfan neu ran ohoni yn unol â rheoliad 13(2).

(2) Bydd person sy'n cyflawni tramgwydd o dan baragraff (1) yn agored o'i gollfarnu'n ddiannod i ddirwy heb fod yn fwy na lefel 1 ar y raddfa safonol.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(a).

21 Mehefin 2001

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

- (a) is supplied to, or open to inspection by, members of the public, or
- (b) is supplied for the benefit of any newspaper, in pursuance of regulation 5 or 8,

the publication thereby of any defamatory matter contained in the document shall be privileged unless the publication is proved to be made with malice.

(5) Any written record of an executive decision, or any report required by regulation 8 to be available for inspection by members of the public, shall be retained by the local authority and made available for inspection by the public for a period of at least six years beginning on the date on which the decision, to which the record or report relates, was made.

(6) Any background papers required by regulation 9 to be available for inspection by members of the public shall be retained by the local authority and be available for inspection by the public for a period of at least four years beginning on the date on which the decision, to which the background papers relate, was made.

(7) The rights conferred on any person by these Regulations to inspect, copy or be furnished with documents are in addition to any such rights that person may have apart from this regulation.

Part II offences

14.-(1) A person who has custody of a document which is required by regulation 5, 8 or 9 to be available for inspection by the public, commits an offence if, without reasonable excuse that person -

- (a) intentionally obstructs the exercise by any person of a right conferred by these Regulations to inspect, or to make a copy of, the whole or part of a document; or
- (b) refuses to supply a copy of the whole or part of the document in accordance with regulation 13(2).

(2) A person who commits an offence under paragraph (1) shall be liable on summary conviction to a fine not exceeding level 1 on the standard scale.

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(a).

21st June 2001

The Presiding Officer of the National Assembly

CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

OFFERYNNAU STATUDOL

2001 Rhif 2290 (Cy. 175)

**LLYWODRAETH LEOL,
CYMRU**

Rheoliadau Awdurdodau Lleol
(Trefniadau Gweithrediaeth)
(Penderfyniadau, Dogfennau a
Chyfarfodydd) (Cymru) 2001

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

STATUTORY INSTRUMENTS

2001 No. 2290 (W. 175)

**LOCAL GOVERNMENT,
WALES**

Local Authorities (Executive
Arrangements) (Decisions,
Documents and Meetings) (Wales)
Regulations 2001

© Hawlfraint y Goron 2001

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

£3.50


W/312/07/01

ON

© Crown copyright 2001

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090282-3



9 780110 902821